COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored - 1.00 y.p., Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2023
Cyfarfod hybrid a gynhaliwyd yn 9 Iard y Cowper, Caerdydd ac mewn lleoliadau eraill trwy gyfrwng Zoom.

Busnes Agored y Cyngor - cofnodion 1 i 11.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: Stephen Nicholls (yn cadeirio), Salamatu Fada, Sam Emmett, Siôn Aled Owen, Tim Palazon, Jan Tiley, Nicole Kinnaird, Chris Franks, Cathy Clark, Judith Evans, Dona Lewis; John Graystone (ymunodd ar ganol y cyfarfod).
Hefyd yn bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Iola Llwyd (cyfieithydd ar y pryd). Fe wnaeth dwy ddysgwraig, Jane Johnston a Rachel Parker (gyda Nicola Holmes, Swyddog Cydlynu'r Cwricwlwm), gyfranogi yn y cyfarfod yn ystod eitemau 1 a 2 yn unig.
Ymddiheuriadau: Victory Ezeofor, Jenni Jones-Annetts; Stephen Thomas (Clerc).
Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod.

2. Cyflwyniadau gan Ddysgwyr

Fe wnaeth Jane Johnson, un o'r ddwy ddysgwraig, agor y cyfarfod trwy rannu cefndir ei phrofiad dysgu gydag AOC. Ar ôl 50 mlynedd o brofiad ym maes addysg, bu'n rhaid i Jane ymddeol o'i rôl addysgu ar ôl profi salwch cronig, poen a gorbryder. Ar yr adeg honno, daeth ei chartref yn ganolbwynt ei byd. Daeth Jane i wybod am AOC bedair blynedd cyn hyn, pan wnaeth hi fynychu dosbarth yn neuadd ei heglwys leol, dan ofal Maria Parry-Jones, y tiwtor. Roedd Jane wrth ei bodd â'r dosbarth ac fe wnaeth hi ddal ati, er bod yr amgylchedd dysgu wyneb-yn-wyneb wedi sbarduno rhai o'i symptomau ac wedi bod yn heriol. Newidiodd pethau eto pan ddechreuodd pandemig Covid-19, oherwydd fe wnaeth Jane gyfranogi mewn gwersi ar-lein a chanfod fod eu hygyrchedd a gallu dod i adnabod pobl o bob cwr o Gymru heb adael ei chartref clyd yn caniatáu iddi hi ffynnu. Fe wnaeth iechyd meddwl Jane wella'n sylweddol, a'i hiechyd corfforol, trwy wneud mwy o ddefnydd o'i hymennydd. Fe wnaeth cyrsiau AOC ac ymrwymiad Jane i'r profiadau dysgu gynnig "rheswm i godi bob dydd" ac "ymdeimlad o ddiben" iddi hi, ac roedd hynny'n golygu nad oedd hi'n teimlo'n unig. Yn ogystal â hyn, llwyddodd i ddatblygu ei sgiliau gwnïo a gwaith crefft, ac aeth ati i greu ei heitemau ei hun i'w gwerthu a'u rhoddi, a chyfrannu at gymdeithas yn sgil hynny.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan Jane ynghylch cyrsiau AOC, yn enwedig Maria ei thiwtor, ac fe wnaeth hi hefyd gynnig sylwadau adeiladol ynghylch gwelliannau gofynnol i lyfrynnau cyrsiau ac Amgylchedd Dysgu Rhithiol (VLE) Moodle. Fe wnaeth yr uwch reolwyr a oedd yn bresennol gadarnhau fod y gwelliannau a awgrymwyd eisoes wedi'u nodi ac roeddent yn cael eu rhoi ar waith.

Yna, fe wnaeth Jane drosglwyddo'r awenau i Rachel Parker, enillydd gwobr Ysbrydoli!, un o ddysgwyr ein cwrs Cwnsela yn Wrecsam. Dywedodd Rachel ei bod hi'n gwella ar ôl bod yn gaeth i gyffuriau, a'i bod wedi profi trawma sylweddol yn ystod ei phlentyndod. Ni allai fyth fod yn weithgar pan oedd hi yn yr ysgol, cafodd brofiad

o'r system gofal a chymerodd heroin am 17 mlynedd. Er na ddylai hi fod yn fyw mewn rhai ffyrdd, roedd hi wedi llwyddo i weddnewid ei bywyd ac roedd 9 mlynedd wedi mynd heibio ers iddi hi wella. Ar ôl adfer, penderfynodd Rachel ei bod hi'n dymuno bwrw ymlaen â'i haddysg, a chwblhaodd gwrs coleg cyn cychwyn cwrs AOC, ac ar ôl cwblhau cwrs Cyflwyniad i Gwnsela, cwblhaodd gyrsiau'r Dystysgrif a'r Diploma yn yr un pwnc. Roedd Rachel yn neilltuol o falch o'r wobr Ysbrydoli! yr oedd hi wedi'i hennill yn gynharach yn y flwyddyn, ac roedd hi'n ddiolchgar i AOC am gynnig cyfleoedd i roi rhywbeth yn ôl i gymdeithas, ac roedd hi'n edrych ymlaen yn arw at gael gweithio gyda chleientiaid â phroblemau alcohol, cyffuriau ac iechyd meddwl yn ystod y flwyddyn ddilynol.

Fe wnaeth aelodau'r Cyngor ddiolch i Jane a Rachel am rannu eu straeon ysbrydolgar. Canmolwyd eu dewrder yn ystod yr amgylchiadau heriol y gwnaethant eu profi, a buasai eu straeon yn cael eu rhannu ymhellach er mwyn ysbrydoli a chymell pobl eraill.

3. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 26 Medi 2023 a materion yn codi

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod rhithiol blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Roedd yr holl bwyntiau gweithredu a restrid ar ddiwedd y cofnodion hynny wedi cael eu gweithredu.

4. Adroddiad am gynnydd tuag at Gynaliadwyedd / Cynllun Seren yn AOC; a'r Polisi Amgylcheddol

Fe wnaeth AOC ymgysylltu â sefydliad ymgynghorol amgylcheddol Cynnal Cymru yn ystod 2022, a chafwyd adroddiad gan Cath Hicks yn disgrifio'r datblygiadau oedd wedi digwydd ers i waith yr ymgynghorwyr ddod i ben. Amlygwyd cynnydd mewn meysydd amgylcheddol allweddol gan gynnwys allyriadau carbon, adeiladau a theithio, dŵr, gwastraff, cymuno gan y staff a gweithio gartref, hyfforddiant, llywodraethu a dylanwad. Yr oedd AOC wedi parhau i weithio i sicrhau achrediad gan Gynllun Seren (Cynllun Seren BS8555) mewn perthynas â'r swyddfeydd sy'n eiddo i'r sefydliad ym Mangor a Chaerdydd. Fe wnaeth Cynnal Cymru argymell y cynllun oherwydd ei gost isel, ei ddull graddol a'r ffaith ei fod yn gymharol hawdd i'w weithredu, ac roedd yn cwmpasu holl agweddau pwysig system rheoli amgylcheddol, ac yn cynnig strwythur da at ddibenion gweithredu yn ystod y cam hwn yn y broses pontio.

Cyflwynwyd Polisi Amgylcheddol diwygiedig i aelodau'r Cyngor, i'w gymeradwyo ganddynt. Cymeradwywyd y polisi ar yr amod y byddai newidiadau bychan yn cael eu gwneud (yn cynnwys cyfeirio at y gadwyn gyflenwi gyfan yn yr adran ynghylch caffael, a rhoi mwy o bwyslais ar y 'dull cylchol').

5. Adroddiad y Prif Weithredwr, Tachwedd 2023

Fe wnaeth Kathryn Robson gyflwyno'i hadroddiad i'r Cyngor, gan ddwyn sylw at y diweddariadau allweddol dilynol. Roedd hi'n galonogol gwybod fod y grant ymchwil gwerth cymdeithasol, a ariennid gan Lywodraeth Gymru, ar y gweill. Holodd Sam Emmett a oedd dulliau ymchwilio moesegol yn eu lle ar e3i gyfer; byddai Kathryn Robson yn trafod hynny ag ef wedi'r cyfarfod.
Roedd AOC wrthi'n archwilio cyfleoedd amrywiol i ddod yn athrofa dechnegol o dan ymbarél Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCDDS), gan adeiladu ar sylfaen y rhaglen Gwaith Ieuenctid bresennol a cheisio datblygu a gwella ffrydiau cwricwlaidd eraill. Cydnabuwyd y posibilrwydd o "sathru traed", ond cadarnhawyd y byddai'r gwaith hwn yn ategu darpariaeth y brifysgol yn hytrach na chystadlu â'r ddarpariaeth honno.

Dygwyd sylw ar ddatblygiadau strategol cadarnhaol gan gynnwys partneriaeth â Choleg Sir Gâr a'n rôl yn nifer o gontractau rhaglen Multiply, er i'r Cadeirydd ddatgan ei syndod nad oedd unrhyw ddogfen fframwaith yn ei lle ar hyn o bryd. Roedd y ddarpariaeth wedi cynyddu'n sylweddol yn rhanbarth y Gogledd, oherwydd ffactorau megis marchnata gwell, gwelliannau i'r wefan, a phartneriaeth lwyddiannus â llyfrgelloedd.

Roedd Pwyllgor Cyd-drafod Addysg Bellach Cymru (WNCFE) wedi argymell cynnig ffurfiol, sef cynnydd o 5% i'r holl staff, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Awst 2023, a chyflwynwyd y cynnig i'r Cyngor i'w gymeradwyo yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Adnoddau. **Cymeradwywyd cynnydd o 5%, ond roedd swm terfynol blwyddyn 2023-24 yn dal yn destun trafodaethau â'r undebau llafur.**

Cyfeiriwyd at ddigwyddiadau a oedd ar y gweill, yn cynnwys lansio Caffi Atgyweirio Port Talbot ar 7 Rhagfyr 2023, digwyddiad y Gronfa Datblygu Trosglwyddo Gwybodaeth ar 27 Chwefror 2024, a'r Gynhadledd, y Seremoni Gwobrwyo Dysgwyr a'r CCB ar 9 Ebrill 2024. Roedd canlyniad yr archwiliad o ddata ynghylch dysgwyr ar gyfer 2022/23 wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol; nodwyd un gwall yn unig mewn cofnod dysgwr. Llongyfarchwyd y tîm am sicrhau'r llwyddiant hwn, a'r ymdrech oedd yn ofynnol i gyflawni canlyniadau o'r fath.

Yna, fe wnaeth Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli ymateb i gwestiynau a sylwadau amrywiol gan aelodau'r Cyngor.

- Roedd denu ac ennyn diddordeb dysgwyr mewn perthynas â phrosiectau Multiply yn digwydd gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys gwaith partneriaeth, ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol.
- Roedd y galw am Gronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF) Llywodraeth Cymru wedi cynyddu yn ystod y misoedd blaenorol. Cydnabuwyd yr heriau oedd yn gysylltiedig â hyn a buasent yn cael eu hystyried yn ofalus i baratoi at y flwyddyn ariannol ddilynol.
- Roedd nifer fechan o diwtoriaid wedi'u dethol i arbrofi â chontractau oriau gwaith blynyddol i diwtoriaid, ar sail y meysydd cwricwlaidd yr oeddent yn eu haddysgu a'u horiau gwaith blaenorol. Byddai'r arbrawf yn parhau trwy gydol y flwyddyn academaidd.
- Cydnabuwyd cost prynu pen setiau Realiti Rhithiol/Estynedig (VAR), a nodwyd y byddai angen gwybod beth fyddai'r buddion a'r enillion posibl yn sgil y buddsoddiad arnynt cyn eu prynu.
- Roedd recriwtio tiwtoriaid sy'n gallu addysgu yn Gymraeg yn dal yn her, ond roedd rhywfaint wedi'u penodi. Cydnabuwyd nad oedd pawb sydd â sgiliau yn y Gymraeg yn teimlo'n ddigon hyderus i addysgu yn Gymraeg. Byddai'r sefydliad yn dal i geisio cyfleoedd i gynyddu nifer y tiwtoriaid Cymraeg, trwy drefniadau partneriaeth o bosibl.
- Cydnabuwyd y gallai cynlluniau gweithredu gwrth-hiliol gael eu hystyried yn ymarferion ticio blychau yn achos rhai sefydliadau. I sicrhau hygrededd go iawn i gynllun AOC, byddai angen penodi aelod o staff yn hanu o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig i fynd i'r afael â'r agenda hwn. Roedd nawdd wedi atal y sefydliad rhag creu swydd ychwanegol, ond byddai'n parhau i adolygu'r sefyllfa.

Fe wnaeth aelodau'r Cyngor ganmol yr Uwch Dîm Rheoli am y blaengareddau niferus oedd ar y gweill a'r cynnydd oedd wedi digwydd mewn cymaint o feysydd, ar waethaf y tîm bychan.

6. Cofnodion y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2023

Fe wnaeth y Cadeirydd grynhoi'r prif bwyntiau a drafodwyd yn ystod cyfarfod y mis blaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys offeryn cynllunio newydd ynghylch parhad y busnesu; dirwyn prosiect y gronfa Lloches, Mudo ac Integreiddio ar ddiwedd mis Rhagfyr; cadarnhau nad oedd unrhyw Goncrit Awyriedig Awtoclafiedig Cydnerth (RAAC) yn y swyddfeydd sy'n eiddo i'r sefydliad a'r rhai a rentir ganddo; adroddiad am weithgarwch marchnata yn ystod y 6 mis blaenorol; a thrafodaeth fanwl am sefyllfa ariannol y sefydliad (y cofnod dilynol).

7. Datganiadau Ariannol - Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst i 31 Hydref 2023

Fe wnaeth Mark Baines ddisgrifio'r heriau ariannol oedd yn wynebu Llywodraeth Cymru ym mhob maes, ac yn y sector AB yn benodol. Nid oedd effaith yr heriau hynny ar nawdd AOC yn hysbys ar y pryd. Fodd bynnag, roedd yn debygol y buasai gostyngiad o ran y nawdd i ariannu darpariaeth dysgu rhan amser, gan amharu'n anghymesur ar y Sefydliad. Roedd yn bosibl hefyd y buasai gostyngiad o ran y cronfeydd yr oedd y sefydliad yn elwa ohonynt

ar y pryd, er enghraifft, Cyfrifon Dysgu Personol (PLA) a'r Gronfa Iechyd Meddwl a Llesiant. Ni fuasai'r sefydliad yn wynebu toriadau yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, ond roedd sefyllfa'r flwyddyn ariannol ddilynol yn ansicr.

Serch hynny, roedd y sefyllfa yn gadarnhaol i AOC yn achos dau beth; cyfranogiad y sefydliad yn rhaglen Multiply a'r buddion ariannol sy'n gysylltiedig â hynny, a'r sefyllfa iach o ran y cronfeydd ariannol wrth gefn (nodwyd serch hynny y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried y cronfeydd ariannol wrth gefn sydd gan y colegau wrth wneud penderfyniadau ariannol). Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei ddarparu pan ddeuai ar gael. Yn y cyfamser, roedd AOC yn parhau i ystyried meysydd ble gellid gweithredu arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd i arbed costau a chreu incwm. **Awgrymwyd, pan fyddai gwybodaeth ariannol fwy penodol ar gael ynghylch 2024-25, y buasai'n ddefnyddiol llunio cynllun yn amlinellu sut gallem ddefnyddio ein cronfeydd wrth gefn.**

8. Cofrestr Risgiau Tachwedd 2023

Roedd risg ychwanegol wedi'i chynnwys yn y Gofrestr, ynghylch y potensial am ymosodiad seibir a/neu ymosodiad gan dwyllwyr ar ein prosesau bancio, ynghyd â'r mesurau oedd wedi'u sefydlu i osgoi'r risg hon. Nododd y Cyngor y risg honno, a gweddill cynnwys y Gofrestr.

9. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Croesawyd y fersiwn ysgrifenedig o adroddiad y Prif Weithredwr gan yr aelodau hynny o'r Cyngor yr oedd yn well ganddynt weld manylion yr adroddiad cyn y cyfarfod, yn hytrach na chael cyflwyniad gweledol 'byw'.

10. Unrhyw faterion eraill

Fe wnaeth Tim Palazon nodi mai 2026 fuasai canmlwyddiant y Streic Gyffredinol. **Cytunwyd y dylai AOC gynllunio i gydnabod y digwyddiad hwn mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn ystod Wythnos Addysg Oedolion o bosibl. Cytunodd y buasai'n ystyried y thema yn fanylach a chynnig awgrymiadau i'r Cyngor.**

Yn unol â'r ymrwymiadau cyffredinol i lesiant staff, **gofynnodd Jan Tiley i AOC ystyried talu costau'r brechiadau rhag y ffliw ar ran yr aelodau hynny o'r staff nad oeddent yn gymwys i gael eu brechu yn rhad ac am ddim**.

11. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd cysylltiedig yn ystod 2024:

- Dydd Llun 29 Ionawr 2024
- Dydd Llun 11 Mawrth 2024
- Dydd Mawrth 9 Ebrill 2024 (y Gynhadledd Flynyddol gan gynnwys ein CCB: Theatr Soar, Merthyr Tudful)
- Dydd Mercher a Dydd Iau, 22 a 23 Mai 2024 (Digwyddiad Cynllunio Strategol: Nant Gwrtheyrn, Gwynedd)
- Dydd Gwener 5 Gorffennaf 2024

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 4	Adroddiad am gynnydd tuag at Gynaliadwyedd / Cynllun	Cyflwynwyd Polisi Amgylcheddol diwygiedig i aelodau'r Cyngor, i'w gymeradwyo ganddynt.	CH	Ionawr 2024

	Seren yn AOC; a'r Polisi Amgylcheddol	Cymeradwywyd y polisi ar yr amod y byddai newidiadau bychan yn cael eu gwneud (yn cynnwys cyfeirio at y gadwyn gyflenwi gyfan yn yr adran caffael, a rhoi mwy o bwyslais ar y 'dull cylchol').		
Cofnod 5	Adroddiad y Prif Weithredwr, Tachwedd 2023	Cymeradwywyd cynnydd o 5% mewn cyflogau, ond roedd swm terfynol blwyddyn 2023-24 yn dal yn destun trafodaethau â'r undebau llafur.	MB / CH	Ionawr 2024
	Datganiadau Ariannol - Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst -31 Hydref 2023	Awgrymwyd, pan fyddai gwybodaeth ariannol fwy penodol ar gael ynghylch 2024-25, y buasai'n ddefnyddiol llunio cynllun yn amlinellu sut gallem ddefnyddio ein cronfeydd wrth gefn.	Yr Uwch Dîm Rheoli	Ionawr 2024
10	Unrhyw faterion eraill	Cytunwyd y dylai AOC gynllunio i gydnabod canmlwyddiant y Streic Cyffredinol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn ystod Wythnos Addysg Oedolion 2026 o bosibl. Cytunodd Tim Palazon buasai'n ystyried y thema yn fanylach a chynnig awgrymiadau i'r Cyngor.	Tim Palazon / CH	Mawrth 2024
10	Unrhyw faterion eraill	Gofynnodd Jan Tiley i AOC ystyried talu costau'r brechiadau rhag y ffliw ar ran yr aelodau hynny o'r staff nad oeddent yn gymwys i gael eu brechu yn rhad ac am ddim.	Yr Uwch Dîm Rheoli	Ionawr 2024